

Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Adroddiad Blynyddol 2022-2023



RHONDDA CYNON TAF



Cynnwys

Rhagair

Aelodaeth

Rhaglen Sefydlu a Hyfforddiant i Aelodau

Adnoddau

Hybrid / Gweddarlledu

Trefniadau Pleidleisio

Porth yr Aelodau

Diogelwch yr Aelodau

Lles yr Aelodau

Edrych i'r Dyfodol

Atodiad - Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd - Cylch Gorchwyl



Y Cynghorydd W Jones

RHAGAIR Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Roedd hi'n fraint i mi gymryd yr awenau yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ystod y flwyddyn bwysig gyntaf yma yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022. Ymunodd 35 o Aelodau newydd â'r Cyngor yn dilyn yr etholiad, ac mae swyddogaeth y Pwyllgor o ran cefnogi pob Aelod, newydd neu beidio, i fynd i'r afael â'i waith, mor hanfodol ag erioed. Mae gwaith a chymorth Uned Busnes y Cyngor yn hollbwysig yn ystod y cyfnod sefydlu a thu hwnt. Mae'r garfan yn darparu cymorth, cefnogaeth a hyfforddiant i'r Aelodau, yn ogystal â'r dechnoleg sydd ei hangen i gyflawni'r gwaith. Mae'n amlwg bod yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r Uned o edrych ar ganlyniadau Arolwg yr Aelodau, ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'i garfan am fynd gam ymhellach i helpu'r holl Aelodau Etholedig bob amser.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd wedi mynd rhagddo i sefydlu system bleidleisio addas i'w defnyddio yn y Pwyllgorau, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi'r holl opsiynau a gafodd eu hystyried a'u mireinio er mwyn dod o hyd i'r dull gorau o gynnal pleidleisiau wrth i'r Cyngor fwrw ymlaen â'i gyfarfodydd hybrid. Roedd hi'n bwysig llunio polisi trylwyr a manwl ar gyfer cyfarfodydd hybrid yn rhan o'r gwaith yma, ac fe gyflwynodd y Pwyllgor sylwadau a chwestiynau heriol ynglyn â'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft. Mae bellach disgwyl i'r polisi gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn er cymeradwyaeth.

Mae'r Pwyllgor wedi rhoi dull gweithredu blaengar, ffres, ar waith, gan fanteisio ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd gan y Pwyllgor blaenorol a'i Gadeiryddion. Rydyn ni'n parhau i hyrwyddo'r meysydd sydd wedi'u datblygu eisoes, yn enwedig o ran yr agenda amrywiaeth a chydraddoldeb y bu'r Pwyllgor blaenorol yn awyddus iawn i fynd i'r afael â hi drwy'i weithgorau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth yn y Cyngor.

Yn dilyn croesawu Aelodau newydd i'r Pwyllgor, rydyn ni wedi ymrwmo i ddal ati i drin a thrafod nifer o feysydd a chyfleoedd yn ystod blwyddyn

nesaf y Cyngor. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle gorau i'r Aelodau sicrhau gwelliannau ar gyfer eu trigolion, a byddwn ni'n llunio rhaglen waith fanwl a thrylwyr yn ystod blwyddyn newydd y Cyngor er mwyn cyflawni'r nod yma. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn benodol at adolygu Rhaglen Hyfforddiant yr Aelodau a'r dull gweithredu perthnasol yn dilyn adolygiad llwyddianus o'r broses Datblygiad Personol a gynhaliwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'i uwch-swyddogion.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i Is-gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Maureen Webber, am ei chymorth a'i chynngor gwerthfawr yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn cadeirio'r Pwyllgor. Diolch hefyd i'r holl Aelodau am eu presenoldeb, ac am ddarparu sylwadau a heriau cadarnhaol ym mhob cyfarfod.

Hoffwn hefyd nodi fy mod i'n ddiolchgar iawn am yr adnoddau corfforaethol a gaiff eu nodi a'u darparu'n barhaus gan garfan y Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r rhain o gymorth enfawr o ran cefnogi'r gwaith gwella mae'r Pwyllgor yn ei wneud.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones

Aelodaeth Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd



Y Cyngorydd W Jones
Cadeirydd



Y Cyngorydd M Webber
Is-gadeirydd



Y Cyngorydd L Addiscott



Y Cyngorydd J Bonetto



Y Cyngorydd S J Davies



Y Cyngorydd A J Ellis




Y Cyngorydd R Evans



Y Cyngorydd P Evans



Y Cyngorydd S Hickman



Y Cyngorydd G Jones




Y Cyngorydd S Morgans



Y Cyngorydd S Powderhill



Y Cyngorydd C Preedy



Y Cyngorydd B Stephens



Y Cyngorydd S Trask



Y Cyngorydd J Turner



Y Cyngorydd K Webb

Rhaglen Sefydlu a Hyfforddiant i Aelodau

Roedd y Rhaglen Sefydlu i Aelodau yn gynllun hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer Aelodau newydd a'r rheiny oedd wedi'u haillethol. Aeth y rhaglen yma ymhell y tu hwnt i'r gofynion hyfforddiant gorfodol. Cafodd sesiynau cyffredinol a phenodol pellach eu cynnal gan ddarparwyr mewnol ac allanol yn ystod blwyddyn gyntaf y Cyngor. Yn ogystal â hynny, cafodd pob Aelod gopi o'r llyfryn sefydlu a deunydd ysgrifenedig am yr hyfforddiant. Cafodd yr Aelodau hefyd ddyfeisiau electronig megis gliniaduron a ffonau symudol er mwyn eu helpu nhw i gyflawni'u gwaith a'u hyfforddiant.

Cafodd rhai sesiynau hyfforddi eu cynnal ar-lein ac eraill yn y dull hybrid. Cafodd amseroedd y sesiynau eu hamrywio fel eu bod nhw'n gyfleus o ran ymrwymadau personol a busnes yr Aelodau. Lle nad oedd yr Aelodau'n gallu bod yn bresennol, trefnwyd sesiynau 1-1 unigol. Roedd ymateb da i'r sesiynau hyfforddiant a ddarparwyd fesul grŵp gwleidyddol hefyd.

Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am y cyfleoedd hyfforddi a datblygu a ddarperir i Aelodau gan Uned Busnes y Cyngor. Roedd y Pwyllgor felly'n awyddus i adolygu Arolwg yr Aelodau er mwyn trin a thrafod yr adborth mewn perthynas â'r rhaglen sefydlu, perthnasedd/hyd/cynnwys y sesiynau a pha welliannau posibl mae modd eu rhoi ar waith ar gyfer rhaglenni hyfforddiant yn y dyfodol. Roedd hi'n braf nodi bod 87% o'r Aelodau wedi dweud eu bod nhw'n fodlon ar y ffordd yr oedd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno, ei amseru a'i gynnwys. Roedd y Pwyllgor yn nodi ei bod hi wedi bod yn anodd i rai Aelodau fynychu'r holl sesiynau, ac roedd Uned Busnes y Cyngor yn gwerthfawrogi'r adborth hwnnw. Bydd hyn yn helpu'r Uned i fireinio'r rhaglen er budd Aelodau'r dyfodol.

Mae'n bwysig adeiladu ar sylfeini cadarn y Rhaglen Sefydlu yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth bellach i gyflawni'u gwaith. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cefnogi'r broses Adolygu Datblygiad Personol a gynhaliwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan roi cyfle i'r Aelodau fwrw ymlaen ag unrhyw sgysiau preifat er mwyn nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant. Mae hyn hefyd yn gyfle i drafod lles cyffredinol yr Aelodau - mater sydd yr un mor bwysig i'r Pwyllgor.

Aeth y Pwyllgor ati i drin a thrafod adroddiad sy'n amlinellu'r cynllun hyfforddiant ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2023/24 yn ystod ei gyfarfod ym mis Ebrill. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal mewn nifer o ddulliau gwahanol, megis fesul grwpiau gwleidyddol, fesul Pwyllgor, ac mewn sesiynau un-i-un. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y byddai sesiynau hyfforddiant gloywi yn cael eu cynnal yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor. Mae rhaglen hyfforddiant benodol eisoes ar waith ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu a Chraffu, ac mae'n RHAIID bod nifer o'n Haelodau wedi cyflawni hyfforddiant cychwynnol cyn bod modd iddyn nhw ddod yn Aelod o Bwyllgor.

Mae modd i'r Aelodau wneud cais am hyfforddiant drwy law'r Pwyllgor dan sylw, anfon cais uniongyrchol ar Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd neu wneud cais drwy eu grwpiau gwleidyddol.

Adnoddau

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror, trafododd yr Aelodau farn ofynnol statudol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â digonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r Aelodau wrth eu gwaith.

Cafodd yr Aelodau wybodaeth fanwl ynghylch lefelau staffio, llety, hyfforddiant a chymorth digidol - sydd oll yn faterion hollbwysig i'r Aelodau.

Rhoddodd yr adroddiad gyfle i'r Aelodau groesawu tair aelod o staff yn ôl o'u cyfnodau mamolaeth, yn ogystal â diolch a dymuno'n dda i un gweithiwr a oedd wedi gadael y Cyngor ar gyfer swydd newydd. Roedd hefyd yn gyfle i'r Aelodau ddiolch i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Uned Busnes y Cyngor a swyddogion y gwasanaeth TGCh am eu cymorth parhaus, yn enwedig mewn perthynas â'r Rhaglen Sefydlu. Clywodd yr Aelodau fod arferion gwaith da Uned Busnes y Cyngor yn cael eu cydnabod gan sefydliadau eraill, gyda'r uned yn mynd ati i roi cymorth i Gonsortium Canolbarth y De a chymryd cyfrifoldeb am drefniadau craffu ar y cyd ar gyfer Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf Morgannwg a Phwyllgor Craffu Rhanbarthol Bargaen Ddinesig Caerdydd.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu am newidiadau i Swyddfeydd y Cyngor, ac roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r camau gweithredu sydd ar waith, yn ogystal â nod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd o ran datblygu'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i ffyrdd newydd, rhithwir, o weithio. Roedd yr Aelodau'n effro i'r ffaith bod y Cyngor ddim yn cydymffurfio â gofynion cyfredol y Siarter Lefel Uwch o ran Ystafelloedd Cyfarfod i Aelodau. Serch hynny, roedd yr Aelodau'n falch o glywed am gyfraniad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd tuag at lywio gofynion diwygiedig y Siarter genedlaethol, sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Roedd yr Aelodau'n hoff o'r darpariaethau digidol a oedd ar gael, ac ail-bwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bwysigrwydd diogelu dyfeisiau'r Aelodau yn dilyn ymosodiadau gwerwydo diweddar ar y Cyngor, gyda'r nod penodol o dargedu Aelodau Etholedig. Mae'n bwysig felly bod Aelodau'n defnyddio dyfeisiau'r Cyngor pryd bynnag y bo modd i gyflawni busnes y Cyngor.

Hybrid / Gweddarlledu

Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o roi'r system gweddarlledu ar waith ers y trafodaethau cychwynnol yn 2019 ac mae'n braf gweld cymaint o Bwyllgorau'r Cyngor yn cael eu gweddarlledu a'u ffrydio'n fyw. Mae modd i Aelodau'n ddewis mynychu cyfarfodydd naill ai yn Siambr y Cyngor neu ar-lein drwy Zoom. Mae'r seilwaith gweddarlledu wedi cynorthwyo'r Cyngor yn ei ymagwedd ragweithiol at gyfarfodydd hybrid, gyda'r cyfleusterau'n cael eu defnyddio hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal ei gyfarfod cyffredinol blynyddol, yn ogystal â grŵp Public I User, sef darparwr system gweddarlledu'r Cyngor.

Mae ffrydio byw/gweddarlledu cyfarfodydd yn ddull pellach o ymgysylltu â'r cyhoedd, gan ganiatáu i'r cyhoedd wyluo cyfarfodydd byw o unrhyw leoliad, yn hytrach na gorfod teithio i Siambr y Cyngor, sydd wedi'i gydnabod fel rhwystr o ran cyfranogiad y cyhoedd yn y gorffennol. Mae manteision eraill sydd ynghlwm â gweddarlledu'n cynnwys:

- Dangos enghreifftiau cadarnhaol o atebolrwydd a thryloywder;
- Annog ymgysylltu a thrafodaeth, trwy greu rhagor o gyfleoedd i'r cyhoedd ymwneud â chyfarfodydd;
- Cywirdeb o ran cofnodi cyfarfodydd gan gynnwys cofnodi penderfyniadau, pleidleisiau a phresenoldeb;
- Y cyfle i godi proffil gwaith y Cynghorwyr, a'r trafodaethau y tu ôl i benderfyniadau'r Cyngor a'i bwyllgorau.
- Mae'n cefnogi ein dulliau di-bapur o gynnal cyfarfodydd gan fod rhai cyfleusterau yn siambr y Cyngor ar hyn o bryd yn rhwystro hyn.

Cyfarfodydd Hybrid a gynhaliwyd ers Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor 2022 - Ebrill 2023

Pwyllgor	Nifer y Cyfarfodydd	Cyfanswm yr achosion o wyllo	Achosion o wyllo'n fyw	Achosion o wyllo wedi'u harchifo	Achosion o rannu'r recordiad
Y Cyngor	12	2,739	411	2,328	26
Aelod o'r Cabinet	13	3,396	288	3,108	3
Y Gwasanaethau Democratiaidd	2	65	9	56	0
Craffu	18	988	106	882	10
Pwyllgor Cynllunio a Datblygu	17	3,359	745	2,614	7

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, er bod nifer dda o bobl yn gwyllo'r gweddarllediad, a'i fod yn uwch nag unrhyw bresenoldeb corfforol gan y cyhoedd mewn cyfarfodydd, bod angen gwneud mwy o hyd i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd ym maes democratiaeth. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y bydd y Cyngor yn ei lunio, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r cyfarfodydd hybrid wedi'u hen sefydlu o fewn y Cyngor ac ystyriodd y Pwyllgor y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad Drafft yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, lle heriodd yr Aelodau'r polisi yn adeiladol er mwyn sicrhau ei fod yn creu amgylchedd a oedd yn addas i bawb. Roedd yr Aelodau'n cydnabod pwysigrwydd sefydlu'r polisi, gan gynnwys nodi'r disgwyliadau o ran ymddygiad Aelodau mewn cyfarfodydd hybrid a dewis pa gyfarfodydd a fyddai'n cael eu cynnal yn rhai hybrid neu ar-lein yn unig.

Wrth symud ymlaen gyda'r datblygiadau digidol sydd ar gael mae Uned Busnes y Cyngor yn adolygu'r amrywiol lwyfannau cyfarfod ar-lein sydd ar gael i sicrhau gwerth am arian, diogelwch a phroffesiynoldeb cyfarfodydd.

Trefniadau Pleidleisio

Yn ei gyfarfod ym mis Medi, cynhaliodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd gynllun peilot o drefniant pleidleisio digidol drwy system Civica Modern.Gov, system a ddefnyddir gan Aelodau'r Cyngor i weld papurau'r Pwyllgorau.

Byddai pleidleisio trwy nodwedd bleidleisio app Modern.Gov yn nodi presenoldeb corfforol a phresenoldeb o bell, a hynny gan ddefnyddio swyddogaeth bleidleisio syml, diogel a thryloyw trwy raglen ddi-bapur. Mae'r rhaglen yn rhoi'r cyfle i garfan y Gwasanaethau Democrataidd rag-gyflwyno pleidleisiau a chynnal pleidleisiau ad-hoc ar eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd hybrid neu rithwir. Yn ogystal â hynny, mae'r app yn rheoli materion o ran presenoldeb, y broses bleidleisio gyfan, ail bleidleisiau a phenderfyniadau terfynol. Mae modd iddo hefyd ddarparu cyfres o wybodaeth ychwanegol, sydd ar gael i'r cyhoedd.

Gan ddefnyddio app Mod Gov, bydd presenoldeb Aelodau yn parhau i gael ei gofnodi ochr yn ochr â'u proffiliau priodol ar wefan y Cyngor, ynghyd â chanlyniadau pleidleisiau, a fydd yn cael eu cynnwys o dan eu 'Cofnod Pleidleisio'. Bydd y broses yma'n sicrhau atebolrwydd a thryloywder yn dilyn pleidleisio a chofnod clir o benderfyniadau'r Aelodau.

Er bod yr Aelodau o blaid defnyddio'r app pleidleisio yn dilyn cyflwyno'r drefn fesul pwyllgor ar y cychwyn cyntaf (ac yn dilyn hyfforddiant trylwyr), mae opsiynau pellach o ran trefniadau pleidleisio hybrid eraill yn cael eu datblygu ar y farchnad ddigidol hefyd. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cadw golwg ar bob un i sicrhau bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r trefniant pleidleisio mwyaf priodol.

Bydd Diweddariadau Amserol mewn perthynas â threfniadau pleidleisio yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor.

Porth yr Aelodau

Yn ystod proses Sefydlu'r Aelodau, rhoddwyd hyfforddiant i'r Aelodau ar Borth yr Aelodau. Y gobaith oedd y byddai'r porth ar-lein yma'n galluogi'r Aelodau i gyflawni eu gwaith mewn modd mwy hygyrch a hyblyg. Mae'r system ar hyn o bryd yn caniatáu i Aelodau gyflwyno cwestiynau i'r Cyngor, Datgan Buddiant a Galw Penderfyniad i Mewn. Y bwriad yw y bydd yr holl ddeunyddiau hyfforddi ar gael ar y Porth er mwyn i Aelodau gyfeirio atyn nhw yn y dyfodol. Mae'r Porth yn system sy'n dal i ddatblygu, a'r bwriad yw y bydd y system, ymhen amser, yn darparu gwybodaeth ystadegol, a luniwyd o system adrodd cwsmeriaid y Cyngor ('CRM'). Bydd gwybodaeth ynglŷn â pha faterion sy'n cael eu codi, megis baw cŵn neu dyllau yn y ffordd, yn cael ei chasglu fesul ward, ochr yn ochr â gwybodaeth am sut y datryswyd y cwynion yma. Bydd y cyfleuster newydd hefyd yn darparu gwybodaeth am y busnes diweddaraf mae'r Cyngor yn ei drafod, a materion fel ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â wardiau etholiadol yr Aelodau.

Cafodd statws presennol y Porth ei drafod gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ystod mis Chwefror. Nododd yr Aelodau fod angen adolygu'r Porth yn ei ffurf bresennol i sicrhau bod y llwyfan yn cyflawni'u gweledigaeth. O ganlyniad i hynny, mae rhai Aelodau o'r Pwyllgor wedi gwirfoddoli i fod yn 'Hyrwyddwyr Porth yr Aelodau', a byddan nhw'n gweithio gyda Swyddogion Busnes y Cyngor i ddatblygu'r system. Mae'r Aelodau yma eisoes wedi nodi nifer o welliannau a allai wella profiad defnyddwyr y system, yn ogystal â chymryd y mae modd eu cymryd i wneud y Porth yn fwy deniadol. Cyn bo hir, bydd modd i'r Aelodau ddefnyddio'r system i gyflwyno'u treuliau, yn ogystal â nodi manylion cyswllt unigolion pwysig, edrych ar ddeunyddiau hyfforddiant a manteisio ar adran lles. Bydd Hyrwyddwyr Porth yr Aelodau yn bwrw ymlaen â phroffion ar y system yn dilyn y datblygiadau, cyn cyflwyno'r Porth ar ei newydd wedd i bob Aelod. Y bwriad fydd i'r Porth gael ei adolygu'n rheolaidd gan Hyrwyddwyr Porth yr Aelodau i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gymorth pwysig a defnyddiol wrth i'r Aelodau gyflawni eu rôl. Y nod yw sicrhau mai'r Porth yw'r lle cyntaf i'r Aelodau droi ato pan fyddan nhw angen gwybodaeth/rhoi gwybod am broblemau a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Diogelwch yr Aelodau

Mae swyddogaeth Aelod Etholedig yn rhan annatod o'r Cyngor ac un o'r pethau pwysicaf y mae gofyn i'r Aelodau Etholedig ei wneud ydy cadw mewn cysylltiad â thrigolion a'u cymunedau. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu dros y ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, cynnal cyfarfodydd rhithwir neu wyneb yn wyneb gydag etholwyr - er enghraifft, drwy gynnal cymorthfeydd, ymweld â chartrefi pobl, neu groesawu pobl i'w cartrefi eu hunain.

Roedd hi'n bwysig felly bod cyfle i'r Pwyllgor adolygu'r trefniadau diogelwch sydd ar waith i sicrhau bod Aelodau'n teimlo'n ddiogel wrth gyflawni eu gwaith. Oherwydd y ffyrdd newydd o weithio ar-lein a'r defnydd o ddyfeisiadau digidol, nid yw hi'n syndod bod cynnydd wedi bod yn yr ymosodiadau seiber yn erbyn y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi bod yn destun nifer fawr o ymosodiadau gwerwydo, ac mae manylion e-bost Aelodau Etholedig yn fwy hygyrch oherwydd natur y rôl a gyflawnir a'r manylion mae gofyn eu rhannu ar wefannau cyhoeddus. O ganlyniad i hyn, mae Aelodau Etholedig wedi cael eu targedu gan rai o'r ymosodiadau yma. Mae'n bwysig ein bod ni Aelodau, lle bynnag y bo modd, yn defnyddio dyfeisiadau digidol y Cyngor. Mae hyn oherwydd bod modd ymddiried yn y dyfeisiau yma, sy'n caniatáu mynediad i e-byst, Teams a systemau'r Cyngor i Aelodau.

Mae Aelodau sy'n defnyddio dyfeisiau'r Cyngor yn cael eu hamddiffyn yn well rhag ymosodiadau o'r fath, ac ni ellir eu dynwared ychwaith gan eu bod nhw'n cael eu hamddiffyn gan dechnolegau seiberddiogelwch y Cyngor. Am y rhesymau a grybwyllwyd uchod, dim ond o ddyfais ddigidol y Cyngor y bydd Aelodau nawr yn gallu cael mynediad at eu cyfrif e-bost gan y Cyngor. I hwyluso hyn, darparwyd ffôn symudol i'r holl Aelodau, yn ddiodyn, yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022.

Mae cam-drin ar-lein hefyd ar gynnydd, gan mai llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yw un o'r prif ffyrdd mae trigolion yn cyfathrebu ag Aelodau. Roedd yr hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol a ddarparwyd yn Rhaglen Sefydlu'r Aelodau felly yn hanfodol bwysig er mwyn eu helpu nhw i ryngweithio'n ddiogel ac yn hyderus gydag etholwyr a thrigolion y Fwrdeistref Sirol. Dyma achub ar y cyfle i atgoffa'r Aelodau y gellir sicrhau bod hyfforddiant o'r fath bob amser ar gael i helpu Aelodau i deimlo'n fwy hyderus wrth ymdrin â negeseuon anodd a pharhaus.

Amlinellwyd yr ystod o ddarpariaethau diogelwch sydd ar gael i'r Aelodau ym Mhwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ym mis Ebrill, ac mae'n bwysig cydnabod yr effeithiau ar les Aelodau pan fyddan nhw'n wynebu unrhyw ymosodiad personol neu seiber. Trafodir hyn yn yr adran nesaf.

Lles yr Aelodau

Mae lles ac iechyd meddwl yr Aelodau yn hanfodol bwysig ac mae angen i'r Aelodau fod yn effro i'r gefnogaeth sydd ar gael os ydyn nhw am ddefnyddio gwasanaeth lechyd Galwedigaethol y Cyngor.

Dyma atgoffa'r Aelodau o'r trefniadau cymorth mae modd iddyn nhw fanteisio arnyn nhw. Mae modd cael sgwrs anffurfiol a phreifat gyda Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, derbyn gwasanaeth gan garfan lechyd Galwedigaethol y Cyngor a hunangyfeirio trwy raglen Care First.

(<http://www.carefirst-lifestyle.co.uk>).

Roedd y pwyllgor yn falch o weld y sesiynau Sgwrs Dros Baned yn eu hôl gan fod hyn yn gyfle i'r Aelodau gymdeithasu a rhwydweithio mewn modd anffurfiol. Weithiau does dim modd gwneud hyn fel arall os yw'r cyfarfod yn hybrid neu ar-lein. Er bod y tywydd garw wedi amharu ar y sesiwn ddiweddaraf, braf oedd gweld Aelodau o bob plaid wleidyddol yn dod at ei gilydd, a bydd Uned Busnes y Cyngor, gyda chefnogaeth y Pwyllgor hwn, yn edrych ar ddarparu rhagor o'r cyfleoedd hyn dros Flwyddyn nesaf y Cyngor.

Edrych i'r Dyfodol

Bydd y Pwyllgor yn manteisio ar Hyrwyddwyr Porth yr Aelodau, yn ogystal â dulliau eraill, er mwyn parhau i ddatblygu'r Porth a sicrhau bod modd i'r Aelodau fynd ati'n ddidrafferth i gael gafael ar wybodaeth, ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd a nodi problemau ar ran trigolion lleol. Gobeithio y bydd y 'siop un stop' yma o gymorth i'r Aelodau yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r uchod, mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i fonitro hyfforddiant yr Aelodau. Mae sesiynau hyfforddiant yn rhoi nifer o gyfleoedd i Aelodau newydd a'r rheiny sy'n dychwelyd i feithrin hyder wrth eu gwaith. Gwerthfawrogir bod y broses sefydlu ar gyfer Aelodau Newydd yn cynnwys llawer o wybodaeth newydd a phwysig, felly mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i adeiladu ar y sylfaen wybodaeth yma yn y dyfodol. Mae angen sicrhau ein bod wedi gwneud ein gorau glas i hwyluso gwaith unrhyw Aelod, newydd neu beidio, a'n bod ni'n darparu'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw i gyflawni'r swyddogaeth werth chweil yma yn llwyddiannus.

Byddwn ni'n parhau i ymdrechu i wella'r broses ddemocrataidd a bydd system bleidleisio dryloyw yn helpu i wella atebolrwydd. Bydd hyn, ynghyd â ffocws ar gyfranogiad y cyhoedd yn y system ddemocrataidd, yn gwella'r broses o ran gwneud penderfyniadau o fewn y Cyngor. Felly, byddwn ni'n monitro gweithrediad y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus yn rhan o'n gwaith parhaus a'n hymrwymiad i drefniadau cyfarfodydd hybrid, fel yr amlinellir ym Mholisi Cyfarfodydd Aml-leoliad y Cyngor.

Atodiad - Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd - Cylch Gorchwyl

- Ymgymryd â swyddogaeth yr awdurdod lleol mewn perthynas â phenodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;
- Adolygu'r ddarpariaeth o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn gofalu bod y cyfan yn ddigonol gyda golwg ar gyfrifoldebau'r swydd;
- Cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor llawn ynglŷn â'r materion hyn;
- Mae modd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ei gwneud hi'n ofynnol i Aelodau a swyddogion y Cyngor fod yn bresennol ger ei fron i ateb cwestiynau. Mae dyletswydd ar yr Aelodau a'r Swyddogion dan sylw i gydymffurfio â hyn, ond nid oes rheidrwydd arnynt i ateb unrhyw gwestiynau y byddai ganddynt hawl i'w gwrthod mewn achos llys yng Nghymru a Lloegr. Mae modd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wahodd pobl eraill i fynychu'r cyfarfodydd;
- Rhaid i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd gwrdd o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion a nodir yn y cylch gorchwyl hwn;
- Rhaid i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd drafod unrhyw adroddiad neu argymhelliad a anfonir at ei Aelodau, ac unrhyw adroddiad sydd wedi'i lunio gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, o dan Adran 9 (1) (h) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 - a rhaid i hynny fod mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddim mwy na thri mis ar ôl i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn copïau o'r adroddiad;
- Ar ôl iddo lunio adroddiad neu wneud argymhelliad o dan Adran 11 (1) (c) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd drefnu bod copi ohono yn cael ei anfon at bob Aelod o'r Cyngor nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor;
- Bydd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd gyfrifoldeb cyffredinol am benderfynu beth ddylid eu hystyried yn gyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol yn rhan o'i gyfrifoldeb i ddarparu cefnogaeth i'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau. Yn ychwanegol at y rhestr a nodwyd isod, mae modd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ychwanegu rhai meysydd polisi yr ystyrir bod hyfforddiant yn hanfodol ar eu cyfer, megis cynllunio neu drwyddedu:
- Y Broses Ymsefydlu
- Rôl a swyddogaethau'r Adain Weithredol, y Cyngor a'i Swyddogion
- Trosolwg a Chraffu
- Technoleg Gwybodaeth
- Cod Ymddygiad
- Rôl Cynghorydd fel Aelod Lleol
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Hyfforddiant ar Faterion Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
- Bydd y cyfleoedd hyfforddi a datblygu y cytunwyd arnynt yn cael eu cynnwys mewn strategaeth ddatblygu gyhoeddedig; Defnyddir Siarter Cymorth a Datblygiad Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("y Siarter") fel canllaw wrth ddyfarnu'r "Siarter Uwch";
- Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnig bod y lefel briodol o gyllid ar gael ar gyfer talu am hyfforddiant allanol, os nad oes modd diwallu anghenion hyfforddi a datblygu rhesymol y Cyngor yn fewnol.